



**Gwasanaeth Democraidd**  
**Democratic Service**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**  
**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00a.m., DYDD LLUN, 10 RHAGFYR 2012**

**10:00a.m., MONDAY, 10 DECEMBER 2012**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/CHAMBER,**  
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**

**PENRALLT,**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

[gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk](mailto:gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk)

Dosbarthwyd / Distributed 30.11.12

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership (15)**

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan      Huw Edwards

Annwen Hughes      Chris Hughes

W. Tudor Owen      Ann Williams

Gethin G. Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams      Christopher O'Neal

Angela Russell      Elfed Williams

**Llais Gwynedd (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

John Brynmor Hughes      Llywarch Bowen Jones

Peter Read      Gruffydd Williams

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor/Chairman of the Council

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2012, fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- (a) 18 Hydref 2012
- (b) 22 Hydref 2012
- (c) 20 Tachwedd 2012

(copi yma – papur **gwyrdd**)

## 6. PWERAU TRWYDDEDU NEWYDD – GORCHMYNION CYFYNGIADAU GWERTHU ALCOHOL YN FUAN YN Y BORE

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **aur**)

## 7. PWERAU TRWYDDEDU NEWYDD – Y DRETH HWYR Y NOS

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **glas**)

## 8. ADOLYGU'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **melyn**)

---

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 17.09.12

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Eddie Dogan, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Eryl Jones-Williams, Christopher O'Neal, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorydd Huw Edwards

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nododd y Cyngorydd Christopher O' Neal ei fod yn gyn weithiwr gyda Chubb Taxis, Bangor.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2012, fel rhai cywir.

## 3. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog:-

- a) 23 a 27 Gorffennaf 2012
- b) 1 Awst 2012

Mewn perthynas â chais The Venue, Adeiladau'r Pafiliwn, Abermaw a ystyriwyd gan yr is-bwyllgor ar 27 Gorffennaf 2012, gofynnodd yr aelod lleol am gael ychwanegu at y cofnod ei fod yn cefnogi sylwadau'r heddlu ar y cais.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 4. ADOLYGU TREFNIADAU AR GYFER CYFLWYNO SYLWADAU/GWRTHWYNEBU CEISIADAU TRWYDDED EIDDO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar adolygu trefniadau ar gyfer cyflwyno sylwadau/gwrthwynebu ceisiadau trwydded eiddo.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu y cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Cyngorydd Eryl Jones-Williams.

Nododd y swyddog y cafwyd sawl enghraifft yn ddiweddar o geisiadau trwydded eiddo a gyfeiriwyd i'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog er penderfyniad oherwydd y derbyniwyd gohebiaeth gan gynghorau cymuned/tref yn gwrthwynebu ceisiadau.

Pan gyflwynir cais i wro, adolygu neu ganiatau trwydded eiddo i'r Awdurdod Trwyddedu, dilyniir y drefn yn unol â chanllawiau a gyflwynir dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Os cyflwynir cais mewn modd priodol, cywir a chyflawn yna nid oes angen cyfeirio'r cais er penderfyniad i wrandawriad gan yr is-bwyllgor os na dderbyniwyd sylwadau neu wrthwynebiad perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu unrhyw berson arall. Yn yr achosion hyn, mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn gallu caniatáu ceisiadau yn unol â'r hyn y gofynnir amdano ac yn unol â'r amodau sy'n berthnasol i'r Atodlen Weithredol ac amodau mandadol perthnasol Deddf Trwyddedu 2003. Os y derbynnir sylwadau neu wrthwynebiad perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu unigolion, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu os y dylid cyfeirio'r penderfyniad i wrandawriad gan yr is-bwyllgor. Er sicrhau tegwch a thryloywder y broses, yn arferol cyfeirir ceisiadau i'r is-bwyllgor lle y derbynnir sylwadau/gwrthwynebiadau.

Nododd bod y Swyddfa Gartref yn darparu arweiniad ar wneud sylwadau neu wrthwynebu ceisiadau trwyddedu eiddo yn y canllawiau a wneir dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'n ofynnol i sylwadau a wneir o fewn y cyfnod ymgynghori fod yn benodol am yr effaith tebygol o ganiatau trwydded mewn perthynas ag o leiaf un o'r amcanion trwyddedu sef –

- a) Atal trosedd ac anrhefn
- b) Diogelwch y Cyhoedd
- c) Atal niwsans cyhoeddus
- ch) Diogelu plant rhag niwed

Bydd yn ofynnol sicrhau bod cais i adolygu trwydded eiddo hefyd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r modd mae'r gweithgareddau trwyddedig yn tansellio o leiaf un o'r amcanion trwyddedu. Dylai unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth lle mae hynny'n bosibl e.e. dystiolaeth o nifer o ddigwyddiadau troseddol yn gysylltiedig ag eiddo trwyddedig, lluniau teledu cylch cyfyng a.y. Mae gwneud sylwadau neu wrthwynebu cais neu ceisio am adolygiad o drwydded yn fater difrifol ac mae'n bwysig eu bod yn ffeithiol gywir. Nododd ei bod yn drosedd i wneud datganiad anghywir yn fwriadol mewn perthynas â chais am drwydded ac mae'r uchafswm dirwy yn dilyn collfarn ddiannod yn £5,000.

Nododd ymhellach ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ddiystyru sylwadau neu wrthwynebiadau os ydynt yn wamal, trallodus neu'n ailadrodd. Pan dderbynnir sylwadau neu wrthwynebiadau i geisiadau nad ydynt yn cynnwys llawer o eglurhad neu dystiolaeth gefnogol, mae'n anodd iawn disgwyl i swyddogion y Cyngor ac aelodau'r is-bwyllgor i wneud penderfyniad ar ddilysrwydd a phwysigrwydd y sylwadau mewn perthynas â'r cais.

Gwahoddir unrhyw berson neu awdurdod cyfrifol sy'n gwneud sylwadau neu'n gwrthwynebu cais, i fynychu gwrandawriad yr is-bwyllgor i gefnogi ac ymhelaethu ar eu sylwadau. Os nad yw gwrthwynebydd yn manteisio ar y cyfle i fynychu'r gwrandawriad, yna mae'r dasg o ystyried pwysigrwydd y sylwadau neu wrthwynebiad yn anodd os nad yw'r sail tystiolaeth a pherthnasedd i amcanion trwyddedu'n amlwg. Dyma'r sefyllfa a wynebodd yr is-bwyllgor ar sawl achlysur yn ddiweddar.

Rhoddodd fanylion am y gwahanol opsiynau i'w hystyried er sicrhau effeithiolrwydd y broses o wneud sylwadau.

Cyfeiriodd aelod at sawl achos yn ddiweddar lle 'roedd cynghorau cymuned/tref yn unig wedi gwrthwynebu cais am drwydded ond nid oedd cynrychiolydd ohonynt wedi presennoli eu hunain yn yr is-bwyllgor, pan ystyriwyd y cais, i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad.

Hysbysodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a laith bod cyfrifoldeb ar y sawl a gyflwynodd sylwadau i sicrhau eu bod yn rhai sy'n ymwneud â'r eiddo dan sylw ac yn berthnasol i'r egwyddorion trwyddedu. Efallai nad yw rhai o'r cynghorau cymuned/tref yn sylweddoli'r goblygiadau a ddeilliai o wrthwynebu ceisiadau am drwydded ac nid oes modd eu gorfodi i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd o'r is-bwyllgor. Felly maent yn colli'r cyfle i ymhelaethu ar eu sylwadau.

Awgrymodd aelod y dylid annog y cynghorau cymuned/tref i anfon cynrychiolwyr i gyfarfodydd yr is-bwyllgor pan ystyrir ceisiadau cymhleth neu gynhennus. Gofynnodd hefyd a fyddai'n bosibl i gynghorwyr sir sydd hefyd yn aelodau o gynghorau cymuned/tref gael rhoddi sylwadau ar eu rhan yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn amlwg o'r canllawiau bod angen cysondeb pan wahoddir sylwadau a.y. Nododd pan anfonir y llythyrau yn gofyn am sylwadau ar geisiadau gan y gwahanol gyrff, gellir nodi yr adeg hynny os ydynt yn geisiadau cymhleth ai peidio.

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a laith na ragwelai wrthwynebiad i gynghorwyr sir sydd hefyd yn aelodau o gynghorau cymuned/tref gael rhoddi sylwadau ar eu rhan yng nghyfarfodydd yr is-bwyllgor, ond byddai'n rhaid edrych ar y ddeddfwriaeth i gadarnhau hynny.

Tynnodd sylw hefyd bod rhaid i aelodau lleol gyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig ar geisiadau cyn bod ganddynt yr hawl dan y ddeddfwriaeth i gael siarad yn yr is-bwyllgor.

'Roedd aelod yn cymeradwyo'r awgrym i gynnal sesiwn hyfforddiant ar gyfer y cynghorau cymuned/tref.

Mewn ymateb, 'roedd y Rheolwr Trwyddedu o'r farn mai'r cam cyntaf fyddai llythyru clerod y cynghorau cymuned/tref ar y mater gyda chanllawiau ar wneud sylwadau ar geisiadau ac y dylid rhoddi ystyriaeth pellach i'r angen am gynnal hyfforddiant.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith at y cyfarfodydd blynyddol a drefnir gyda chynrychiolwyr o'r cynghorau cymuned/tref ac awgrymodd y gellid cyflwyno hyfforddiant yn y cyfarfodydd hynny.

**PENDERFYNWYD**

- a) Llythyru clercod y cynghorau cymuned/tref a'r cynghorwyr sir ar y mater gyda chanllawiau ar wneud sylwadau ar geisiadau.**
- b) Anfon ffurflen bwrpasol ar gyfer cofnodi rhesymau tros wrthwynebu neu roddi sylwadau ar gais i'r cynghorau cymuned/tref a'r cynghorwyr sir neu at unrhyw berson neu sefydliad unwaith maent wedi gwneud sylwadau.**
- c) Rhoddi ystyriaeth pellach i'r angen i gynnal sesiwn hyfforddiant ar gyfer y cynghorau cymuned/tref.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10.40am

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 18.10.12

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr Ann Williams, Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

### 1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – KINGS ARMS, 206, STRYD FAWR, BANGOR

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynnydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Kings Arms, 206, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Alexander Richards (Deilydd y drwydded)

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Kings Arms, 206, Stryd Fawr, Bangor oherwydd bod achos penodol wedi amlygu nad oedd Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo nac eraill yn gyflogedig gan y busnes yn defnyddio'r offer teledu cylch cyfyng yn gywir, yn groes i amodau trefniadau teledu cylch cyfyng sydd ar drwydded yr eiddo ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid gydag amcanion Deddf Trwyddedu 2003. Mae'r heddlu'n nodi bod yr amod cyfredol mewn perthynas â theledu cylch cyfyng yr eiddo'n annigonol a bod y system presennol a ddefnyddir hefyd yn annigonol. Argymhelliad yr heddlu yw y dylid diddymu'r amod presennol o'r drwydded a gosod amod diwygiedig yn ei le mewn perthynas â defnydd teledu cylch cyfyng ar yr eiddo. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gais yr heddlu.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- ii) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, cyfeiriodd y Rhingyll Bill Coppack at ddigwyddiad tu allan i'r eiddo ar 17 Mehefin 2012 pryd yr ymosodwyd ar berson ifanc a'i anafu. 'Roedd y wybodaeth a gafwyd gan y tystion yn nodi i'r troseddwr geisio mynd i mewn i'r eiddo ac y dylai felly fod wedi ei weld ar system teledu cylch cyfyng yr eiddo. Dangosodd ymchwiliad yr heddlu i'r camerau teledu cylch cyfyng fod yn pwyntio i'r cyfeiriad arall ac felly ni chafodd y digwyddiad hwn ei recordio. Nododd



bod yr amod teledu cylch cyfyng cyfredol ar yr eiddo'n annigonol a bod y system teledu cylch cyfyng presennol a ddefnyddir hefyd yn annigonol ac y dylid ei ddileu gan osod amod diwygiedig yn ei le.

Nododd iddo ymweld â'r eiddo yn ystod y dyddiau diwethaf pryd y sylwyd bod y system teledu cylch cyfyng ddigidol a osodwyd ar yr eiddo, erbyn hyn, yn bodloni'r amodau y gofynnwyd amdanynt. Deellir nad oes gan deilydd y drwydded wrthwynebiad i'r amod diwygiedig.

Cytunodd deilydd y drwydded nad oedd y system teledu cylch cyfyng blaenorol i fyny â'r gofynion ond cadarnhaodd bod y system ddiweddaraf yn cyd-fynd â'r hyn y gofynnwyd amdano. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn fodlon derbyn yr amod a argymhellwyd gan yr heddlu.

Gan bod y partion perthnasol wedi dod i gytundeb ynglyn â'r amod diwygiedig ac na dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu dystiolaeth ynglyn ag unrhyw broblemau eraill gyda'r eiddo, cytunodd yr is-bwyllgor i'r adolygiad.

**PENDERFYNWYD addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol -**

- a) Bod system teledu cylch cyfyng ddigidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r eiddo.**
- b) Rhaid i oleuadau yn y lleoliad fod yn ddigon llachar ac o safon ddigonol fel y gellir adnabod pobl sydd tu fewn i'r eiddo ar y system teledu cylch cyfyng.**
- c) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau o'r holl amseroedd mae aelodau o'r cyhoedd yn yr eiddo, am isafswm o 31 diwrnod.**
- ch) Bydd delweddau'n cael eu rhoddi ar gais i'r heddlu neu'r awdurdod lleol ar amser gwneud y cais a bydd yr eiddo'n sicrhau bod ganddynt y meddalwedd priodol ar gael er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddant yn gallu cydymffurfio â'r amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr eiddo fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd yr adolygir y drwydded.**
- d) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff wedi ei hyfforddi ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu'r swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**
- dd) Bod arwyddion teledu cylch cyfyng yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir ym manau cyhoeddus yr eiddo.**
- e) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau'n ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## **2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – PYRAMID, 215, STRYD FAWR, BANGOR**

### **Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynnydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Pyramid, 215, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Walid Mohamed Hussein-Fadil (Deilydd y drwydded), Mrs Jan Hussein-Fadil, Ms Kayleigh Edwards a Mr Almir Musto Fo Bani

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Pyramid, 215, Stryd Fawr, Bangor oherwydd bod achosion penodol o

fethu cydymffurfio ag amodau'r drwydded wedi eu hamlygu rhwng Mehefin ac Awst 2012, lle bu i'r heddlu dystio i gwsmeriaid gael eu gweini gyda lluniaeth yn hwyrach na oriau agor sydd ar y drwydded cyfredol. Oherwydd yr achlysuron hyn o dor-amod, fe weithredodd yr heddlu drefn camau gorfodaeth yn erbyn deilydd y drwydded ac mae'r eiddo bellach ar gam 2 o'r ysgol orfodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaid ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003. Mewn ymateb i'r achlysuron o dor-amod, gofynnai'r heddlu am gael atal y drwydded am gyfnod o dri mis ac yn ogystal â hynny, diwygio amod y drwydded mewn perthynas â'r oriau gweithgareddau trwyddedig ac agor. Argymhellir felly, bod yr oriau y caniateir i agor a gwerthu lluniaeth yn hwyr yn y nos, yn cael ei ostwng o 30 munud, bob diwrnod o'r wythnos. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gais yr heddlu ond derbyniwyd sylwadau gan ddeilydd y drwydded.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, hysbysodd y Rhingyll Bill Coppack y caniatwyd y drwydded yn gynharach eleni. Nododd ar dri achlysur, sef ar 17 Mehefin, 20 a 29 Gorffennaf 2012 y sylwyd bod yr eiddo'n gweini cwsmeriaid ar ôl yr amser cau ac felly'n torri amodau'r drwydded. O ganlyniad i hyn, yn hytrach na chyflwyno cais am adolygiad yn syth, nododd mai polisi'r heddlu yw ystyried os yw cynllun gweithredu'n briodol. Os ystyried mai yn weddol ddiweddar yr agorwyd yr eiddo ac y cafwyd tri achos o dor-amod, penderfynwyd ar gynllun gweithredu a fyddai'n gyfwerth a cham 2 o'r ysgol orfodaeth. Nododd bod cam 1 yn anffurfiol lle yr ymwelir â'r eiddo a thrafodir mân tor-amod gyda'r disgwyliad yn byddant yn cael eu cywiro. Mewn perthynas â cham 2, mae hwn yn fwy ffurfiol a olygai gyfarfod ffurfiol a fyddai'n cael ei recordio. Golygai'r angen i fynd ar gynllun gweithredu ymwneud â rhwystro trosedd ac anhrefn ac oherwydd bod y tor-amodau yn ymwneud ag oriau agor yr eiddo, ni fyddai cynllun gweithredu'n addas yn yr achos hwn. Yn wyneb hyn, cyflwynwyd y cais am adolygu'r drwydded eiddo. Pwysleiswyd wrth deilydd y drwydded yn y cyfarfod cam 2 ar 2 Awst 2012, y pwysigrwyd o gydymffurfio â'r amodau ac y dylai'r eiddo gau am 02.00, dydd Sul i ddydd Mawrth ac am 02.30, dydd Mercher i ddydd Sadwrn. Cyfeiriodd at ymweliad yr heddlu â'r eiddo ar 27 Awst 2012 pryd y sylwyd bod cwsmeriaid yn cael eu gweini am 0.2.20 a oedd yn groes i amodau'r drwydded. Sylwodd yr heddlu hefyd ar yr un noson bod y sgriniau ar y ffenestri wedi hanner eu cau a bod cwsmeriaid yn cael eu gadael i mewn ac allan o'r eiddo. Oherwydd yr holl achlysuron o dor-amod, gofynnodd am gael atal y drwydded am gyfnod o dri mis a gostwng yr oriau y caniateir i agor a gwerthu lluniaeth yn hwyr yn y nos o 30 munud, bob diwrnod o'r wythnos. Fodd bynnag, 'roedd yn fodlon i adael y mater o atal y drwydded am gyfnod o dris mis i aelodau'r is-bwyllgor benderfynu os yw hynny'n addas yn yr achos hwn, ond 'roedd o'r farn y dylid gostwng yr oriau. Pe byddai'r eiddo'n dymuno gwro'r drwydded yn ôl i'r oriau cyfredol ar ôl cyfnod priodol o amser, ac yn amodol bod yr eiddo'n cydymffurfio â'r oriau agor a'r amodau a osodwyd, byddai'r heddlu'n ystyried caniatáu i'r cais gael ei brosesu'n ddiwrthwynebiad. 'Roedd yn cydnabod ei bod yn gyfnod anodd i fusnesau lwyddo ond pwyslesiodd unwaith eto yr angen i sefydliadau o'r fath ym Mangor, gydymffurfio â'r amodau a osodwyd, ac y dylai'r cyfan ohonynt gau yr un amser. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr is-bwyllgor, cadarnhaodd y Rhingyll nad oedd cofnod o

unrhyw drafferth o fewn neu tu allan i'r eiddo yn ystod yr oriau pan fu'r eiddo ar agor yn groes i amodau'r drwydded. Cafwyd un digwyddiad ond 'roedd hynny o fewn i'r oriau agor swyddogol.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Nad oedd wedi gwerthu bwydydd i gwsmeriaid ar ôl yr amser cau ond deallir i ffrindiau rheolwr yr eiddo gael bwyd yno ar ôl yr amser cau ac ymddiheurodd am hynny.
- Bod yr eiddo'n brysur rhwng 01.00 a 02.30 ac ni fyddai'n fodlon i'r drwydded gael ei hatal am dri mis na chwrtogi'r oriau gan y byddai'n effeithio ar ddyfodol ei fusnes.
- Nad oedd wedi torri'r amodau'n fwriadol ac addawodd gadw atynt i'r dyfodol. Gofynnodd am gael ail gyfle.
- Bod cydweithrediad da wedi bod rhyngddo â'r heddlu ers pan ganiatawyd y drwydded.

Nododd y Rhingyll Bill Coppack ymhellach iddo dderbyn tystiolaeth gan ddau o'i gydswyddogion bod cwsmeriaid yn gadael yr eiddo ar 27 Awst 2012 ar ôl amser cau, gyda bwyd poeth a werthwyd yno.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr is-bwyllgor o'r farn bod agor yn groes i amodau'r drwydded yn fater difrifol ac annerbyniol. Serch hynny, cymerwyd i ystyriaeth nad oedd tystiolaeth bod trafferthion o safbwynt atal trosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus wedi codi'n uniongyrchol fel canlyniad. Cymerwyd i ystyriaeth hefyd mai yn gynharach eleni y caniatwyd y drwydded yn ogystal ag esboniad deilydd y drwydded a'i addewid na fyddai'r fath sefyllfa'n codi eto. Felly, o gymryd popeth i ystyriaeth, 'roedd yr aelodau o'r farn na ddylid atal y drwydded am dri mis na chwrtogi'r oriau ac y dylid rhoddi ail gyfle i ddeilydd y drwydded. Fodd bynnag, dylid ei rybuddio os torrir amodau'r drwydded eto, yna fe'i hystyrir yn fater difrifol iawn.

## **PENDERFYNWYD**

**a) Gwrthod cais yr heddlu.**

**b) Cadw at yr oriau a nodir ar y drwydded gyfredol a rhoddi cyfle arall i ddeilydd y drwydded ond ei rybuddio os digwydd i'r mater ddod gerbron yr is-bwyllgor eto, fe'i ystyrir yn fater difrifol.**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## **3. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – DOMINOS PIZZA, NEUADD WILLIS, STRYD FAWR, BANGOR**

### **Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Dominos Pizza, Neuadd Willis, Stryd Fawr, Bangor:** Ms Fiona Hanslow (Rheolwr Ardal)

**Ar ran yr Heddlu:** Rhingyll Bill Coppack a Mr Ian Williams (Cydlynnydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Dominos Pizza, Neuadd Willis, Stryd Fawr, Bangor i wyro trwydded i ganiatau ymestyn oriau agor ar gyfer gwerthiant lluniaeth hwyr yn y nos o 11.00 hyd 05.00, bob diwrnod o'r wythnos..

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni dderbyniwyd ymateb gan yr aelod lleol, y trigolion cyfagos na Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr heddlu, oherwydd yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, cytunwyd i ddiwygio'r oriau y gofynnir amdanynt yn y cais yn sylweddol. Yn ychwanegol i'r oriau ar y drwydded gyfredol, gofynnir yn awr am agor tan 02.30 ar nos lau. Nodir gan yr heddlu na fyddai hyn yn effeithio ar gludiant bwyd i gartrefi mewn ymateb i alwadau ffôn. Derbyniwyd e-bost gan wasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn cyfeirio at amod penodol o'r caniatâd cynllunio a roddwyd i'r busnes. Nid yw'r oriau y gofynnir amdanynt yn y cais gwreiddiol, na'r oriau diwygiedig a gytunwyd rhwng yr ymgeisydd a'r heddlu'n cydymffurfio â'r amod cynllunio. Byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd wneud cais ffurfiol i wyro'r amod cynllunio mewn perthynas ag oriau agor.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- ii) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais.
- iii) Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- iv) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai
- vii. Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, 'roedd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn derbyn sylwadau'r heddlu i ddiwygio'r oriau i 02.30 ar nos lau.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd y Rhingyll Bill Coppack y cytunwyd yn dilyn trafodaeth â'r ymgeisydd i ddiwygio'r oriau i 02.30 ar nos lau.

Gan bod y partion perthnasol wedi dod i gytundeb ynglyn â diwygio'r oriau ar nos lau, ac nad oedd tystiolaeth arall wedi ei gyflwyno i ddangos unrhyw broblemau gyda'r eiddo, nid oedd gan yr aelodau wrthwynebiad i'r cais.

**PENDERFYNWYD caniatâu gwro trwydded Dominos Pizza, Neuadd Willis, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn –**

**a) Caniatâu darparu lluniaeth hwyr yn y nos dan baragraff L fel a ganlyn -**

- Dydd Sul i ddydd Mercher – rhwng 23.00 a 01.00 (fel ar y drwydded bresennol)
- Dydd lau – rhwng 23.00 a 02.30
- Dyddiau Gwener a Sadwrn – rhwng 23.00 a 02.30 (fel ar y drwydded bresennol)

**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd dan baragraff O fel a ganlyn –**

- **Dydd Sul i ddydd Mercher – rhwng 07.00 a 01.00 (fel ar y drwydded bresennol)**
- **Dydd Iau – rhwng 07.00 a 02.30**
- **Dyddiau Gwener a Sadwrn – rhwng 07.00 a 02.30 (fel ar y drwydded bresennol)**

Adroddodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.50am

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.10.12

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr Angela Russell, Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

### **1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – BELLA TAKEAWAY, 8 Ffordd Caergybi, BANGOR**

#### **Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynnydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Bella Takeaway, 8 Ffordd Caergybi, Bangor:** Mr Talal El-Arab (Deilydd y drwydded) a Mr Ahmad Kaugan (Rheolwr)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Bella Takeaway, 8 Ffordd Caergybi, Bangor oherwydd bod achosion penodol o fethu cydymffurfio ag amodau'r drwydded eiddo wedi eu hamlygu rhwng Chwefror ac Awst 2012. Tystiodd yr heddlu bod cwsmeriaid yn cael eu gweini gyda lluniaeth yn hwyrach na'r oriau agor sydd ar y drwydded gyfredol, ar bedwar achlysur. Ystyriodd yr is-bwyllgor hwn ar 9 Gorffennaf 2010 gais gan ddeilydd y drwydded i wyro trwydded i ddarparu lluniaeth hwyr y nos yr eiddo. Rhan o resymeg y cais ar y pryd oedd bod anhawster i glirio'r eiddo mewn pryd ar ddiwedd cyfnod y gweithgareddau trwyddedig. Cytunodd yr is-bwyllgor bod rhaid cyfyngu oriau'r gweithgareddau trwyddedig yn unol ag argymhelliad yr heddlu, ond gyda chyfnod estynedig o 15 munud rhwng diwedd y gweithgaredd trwyddedig ac amser cau'r eiddo, i hwyluso'r broses o gau'r siop. Barn yr heddlu yw bod y dystiolaeth o dor-amod dro ar ôl tro mewn perthynas ag oriau gweithgareddau trwyddedig ac agor yn amlygu bod dryswch oherwydd y 15 munud ychwanegol a ganiateir i gau'r eiddo. Argymhellir bod yr oriau ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig ac agor i fod rhwng 23.00 a 02.30 dydd Llun i ddydd Sul. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gais yr heddlu ond derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan ddeilydd y drwydded a hefyd galwad ffôn gan y Cynghorydd June Marshall yn cefnogi cais yr heddlu.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- ii) Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, nododd y Rhingyll Bill Coppack bod y cais a oedd gerbron yr is-bwyllgor heddiw yn dilyn cais am wyriad a ystyriwyd gan yr is-bwyllgor yng Ngorffennaf 2010. Yr adeg hynny, 'roedd yr heddlu'n gwrthwynebu'r cais a chefnogwyd y gwrthwynebiad gan yr is-bwyllgor. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, barnodd deilydd y drwydded ei bod yn anodd cau'r siop a phenderfynodd yr is-bwyllgor y dylai'r gweithgaredd trwyddedig ddod i ben am 02.30 gan ganiatau 15 munud ychwanegol i'r cwsmeriaid adael yr eiddo, sef tan 02.45. Cyfeiriodd at bedwar achlysur, sef 5 Chwefror, 10 Mawrth, 3 Mehefin a 4 Awst 2012, lle y sylwyd bod yr eiddo'n gweini cwsmeriaid ar ôl yr amser cau ac felly'n torri amodau'r drwydded. Yn dilyn trafodaeth gyda rheolwr yr eiddo, canfuwyd bod y 15 munud y caniateir i'r eiddo fod ar agor ond ddim ar gyfer gweini bwyd, yn peri dryswch. Yn wyneb hyn, gofynnodd i'r is-bwyllgor ystyried diwygio'r drwydded i ganiatau i'r eiddo fod yn agored rhwng 23.00 a 02.30, bob diwrnod o'r wythnos, yn unol â'r drwydded sydd ganddynt i gynnal gweithgaredd drwyddedig.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

- Ei bod yn anodd ar adegau i reoli'r cwsmeriaid yn yr eiddo ac nad yw rhai ohonynt yn dymuno prynu bwyd. Ar adegau eraill mae gormod o bobl yn yr eiddo yn hwyr yn y nos yn disgwyl am fwyd ac mai hynny yw'r rheswm na ellir cau'r drws am 02.30.
- Ar adegau na fydd cwsmeriaid yn eiddo pan y'i caeeir am 02.30.
- Bod yr heddlu i weld yn canolbwyntio ar ei eiddo ef a nododd y dylent roddi sylw i eiddo eraill cyffelyb ym Mangor sy'n agored tan 03.00
- 'Roedd yn fodlon cau yr eiddo am 02.30 os bydd yr eiddo eraill cyffelyb hefyd yn cau yr un amser.
- Ei fod yn ceisio ei orau i gydweithio â'r heddlu ac y dylid cael yr un polisi ar gyfer y sefydliadau hyn ym Mangor.
- Y ceisir diffodd y golau yn yr eiddo am 02.30. Nododd na cheir trafferthion gyda'r cwsmeriaid ac felly nid oes angen galw'r heddlu.
- Y derbyniwyd cyngor gan yr heddlu i beidio cyflwyno cais am estyniad amser tros wythnos y glas.
- Y derbyniwyd gwybodaeth gan swyddog o'r Cyngor bod hawl ganddo i werthu bwyd tan 02.45 ac i hynny beri dryswch iddo.

Mewn ymateb i rhai o'r pwyntiau uchod, hysbysodd y Rhingyll Coppack y byddai'n bosibl gosod amod yn gorfodi'r eiddo i gyflogi goruchwylwyr ar y drws. Nododd y gwnaed hyn mewn rhai sefydliadau cyffelyb ac iddo weithio ond 'roedd yn ymwybodol y byddai hynny'n gost ychwanegol ac nid oedd pwysau mawr ganddo i'r cyfeiriad hwn. Mewn perthynas â'r tor-amod a ddigwyddodd eleni, gellid fod wedi erlyn deilydd y drwydded yn y llys ond ni wnaed hynny ond hytrach tynnwyd ei sylw at y mater. Parthed y cais am estyniad amser tros wythnos y glas, nododd iddo hysbysu'r deilydd y byddai'r heddlu'n gwrthwynebu unrhyw gais. Ni chaniatwyd unrhyw gais o'r fath ym Mangor Uchaf yn ystod yr wythnos honno. Parthed y sylw a wnaed ynglyn â gwerthu bwyd tan 02.45, nododd y dylai deilydd y drwydded a rheolwr yr eiddo wybod nad oedd hynny ar y drwydded a ganiatwyd.

Nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd yn ymwybodol o unrhyw drafodaeth a fu rhwng deilydd y drwydded a swyddog o'r Uned Drwyddedu parthed y sylw a wnaed ynglyn â gwerthu bwyd tan 02.45.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD**

**a) Caniatau cais yr heddlu a diwygio'r drwydded i ganiatau i'r eiddo fod yn agored rhwng 23.00 a 02.30, bob diwrnod o'r wythnos, yn unol â'r drwydded sydd ganddynt i gynnal gweithgaredd drwyddedig.**

**b) Awgrymu wrth deilydd y drwydded ystyried cyflogi goruchwylwyr ar y drws.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## **2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – UNIVERSITY PLAICE, Ffordd CAERGYBI, BANGOR**

### **Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlunydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran University Plaice, Ffordd Caergybi, Bangor:** Mr Mehmet Ali Usal (Deilydd y drwydded)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded University Plaice, Ffordd Caergybi, Bangor oherwydd bod achos penodol o fethu cydymffurfio ag amodau'r drwydded eiddo wedi ei amlygu, dydd Sadwrn 4 Awst 2012. Tystiodd yr heddlu bod cwsmeriaid yn cael eu gweini gyda lluniaeth yn hwyrach na'r oriau sydd ar y drwydded gyfredol. Ystyriodd yr is-bwyllgor hwn ar 9 Gorffennaf 2010 gais gan ddeilydd y drwydded i wyro trwydded i ddarparu lluniaeth hwyr y nos yr eiddo. Rhan o resymeg y cais ar y pryd oedd bod anhawster i glirio'r eiddo mewn pryd ar ddiwedd cyfnod y gweithgareddau trwyddedig. Cytunodd yr is-bwyllgor bod rhaid cyfyngu oriau'r gweithgareddau trwyddedig yn unol ag argymhelliad yr heddlu, ond gyda chyfnod estynedig o 15 munud rhwng diwedd y gweithgaredd trwyddedig ac amser cau'r eiddo, i hwyluso'r broses o gau'r siop. Barn yr heddlu yw bod y dystiolaeth o dor-amod mewn perthynas ag oriau gweithgareddau trwyddedig ac agor yn amlygu bod dryswch oherwydd y 15 munud ychwanegol a ganiateir i gau'r eiddo. Argymhellir bod yr oriau ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig ac agor i fod rhwng 23.00 a 02.30 dydd Llun i ddydd Sul. Derbyniwyd sylwadau ar gais yr heddlu gan deilydd y drwydded sy'n nodi nad oes ganddo wrthwynebiad i'r adolygiad mewn egwyddor, cyn belled y gorfodir yr un amodau yn gyson ar gyfer busnesau cyffelyb eraill yn y cyffiniau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos



Ar ran yr heddlu, hysbysodd y Rhingyll Bill Coppack bod hawl gan yr eiddo i weithgareddau trwyddedig tan 02.30 a chaniatawyd i'r eiddo aros ar agor tan 02.45 fel ymgais i gynorthwyo'r eiddo i reoli'r broses o gau'r siop, ond ddim ar gyfer gweini bwyd. Cyfeiriodd at un achlysur ar 4 Awst 2012 lle y sylwyd bod yr eiddo'n gweini cwsmeriaid ar ôl yr amser cau, sef 02.30, ac felly'n torri amodau'r drwydded. Trafodwyd hyn gyda deilydd y drwydded ac 'roedd yn amlwg bod amodau'r drwydded wedi creu dryswch a'i fod dan yr argraff bod hawl ganddo i weithredu'n gyfreithiol tan 02.45. Yn wyneb hyn, gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried diwygio'r drwydded i ganiatau i'r eiddo fod yn agored rhwng 23.00 a 02.30, bob diwrnod o'r wythnos, yn unol â'r drwydded sydd ganddynt i gynnal gweithgaredd drwyddedig. Deellir nad oes gan deilydd y drwydded wrthwynebiad mewn egwyddor i'r diwygiad.

Mewn ymateb i'r uchod, cydnabu deilydd y drwydded bod amodau'r drwydded wedi creu dryswch iddo a nododd y rhesymau am hynny. Nododd nad oedd yn gwrthwynebu cais yr heddlu mewn egwyddor, cyn belled y gorfodir yr un amodau yn gyson ar gyfer busnesau cyffelyb eraill yn yr ardal.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau cais yr heddlu a diwygio'r drwydded i ganiatau i'r eiddo fod yn agored rhwng 23.00 a 02.30, bob diwrnod o'r wythnos, yn unol â'r drwydded sydd ganddynt i gynnal gweithgaredd drwyddedig.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

### **3. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CAERNARFON BURGER & KEBAB HOUSE, 19 Y BONT BRIDD, CAERNARFON**

#### **Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydylynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Caernarfon Burger & Kebab House, 19 Y Bont Bridd, Caernarfon:** Mr Mustapha Sari (Deilydd y drwydded), Ms Guler Sari a Mr Richard Williams (Cyfreithiwr)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Caernarfon Burger & Kebab House, 19 Y Bont Bridd, Caernarfon oherwydd achos penodol a ddiwyddodd am 01.30, dydd Sul, 5 Awst 2012 lle y cafwyd anghydfod rhwng dau ddyn ifanc ar yr eiddo. Gwaethygodd yr anghydfod i'r raddau lle yr oedd y ddau ddyn yn cwffio, a'r eiddo yn llawn o gwsmeriaid oedd yn cael eu gweini tra 'roedd y cwffio yn mynd rhagddo. Nododd mai aelod o'r cyhoedd a hysbysodd yr heddlu o'r digwyddiad yn hytrach na deilydd y drwydded. Barn yr heddlu yw bod dyletswydd ar ddeilydd y drwydded i'w hysbysu o unrhyw achos treisgar, yn unol â'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a diogelu'r cyhoedd. Tystiodd yr heddlu bod yr eiddo'n llawn o gwsmeriaid yn cael eu gweini am 02.30, er i'r drwydded gyfredol nodi bod rhaid i'r eiddo gau am 02.30. 'Roedd yn rhaid i'r heddlu

ddefnyddio pwerau dan Adran 27 Deddf Lleihau Trosedd Treisgar 2006 er mwyn tawelu sefyllfa a ddatblygwyd tu allan i'r siop, yn ogystal ag ymateb i'r achos o fewn yr eiddo.

Nododd y swyddog, i'r is-bwyllgor hwn ar 23 Gorffennaf 2012, ystyried cais arall am adolygiad o'r drwydded hon gan yr heddlu. Gwnaed y cais ar y pryd yn dilyn achos treisgar a ddigwyddodd ar yr eiddo, bore Sul, 22 Ebrill 2012. Methodd deilydd y drwydded yn ei ddyletswydd i hysbysu'r heddlu am y digwyddiad yr adeg hynny hefyd. Penderfyniad yr is-bwyllgor ar 23 Gorffennaf 2012 oedd derbyn argymhelliad yr heddlu parthed diwygio amod y drwydded mewn perthynas â darparu gwell trefniant teledu cylch cyfyng.

Argymhelliad yr heddlu yw bod amodau'r drwydded yn cael eu diwygio fel â ganlyn –

a) Cyflogi staff drws a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch o leiaf ar nosweithiau Gwener a Sadwrn a hefyd nos Sul Gŵyl Banc.

b) Diwygio'r drwydded i sicrhau oriau cau o 02.00, bob noson o'r wythnos.

Yn ogystal, cynhwysir opsiynau ychwanegol er ystyriaeth yr is-bwyllgor yn yr atodlen i'r cais. Nid yw'r heddlu'n gofyn am atal y drwydded ar hyn o bryd, ond gwahoddir yr is-bwyllgor i ystyried yr opsiwn hwn os yr ystyrir ei fod yn briodol i'r amgylchiadau.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cais, ond derbyniwyd llythyr gan gyfreithiwr deilydd y drwydded yn gwrthwynebu adolygiad yr heddlu.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- ii Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, nododd y Rhingyll Bill Coppack yr adolygwyd y drwydded gan yr is-bwyllgor yng Ngorffennaf 2012 oherwydd achos treisgar a ddigwyddodd ar yr eiddo yn gynharach eleni. Penderfyniad yr is-bwyllgor yr adeg hynny oedd y dylid cael gwell system teledu cylch cyfyng yn yr eiddo ac 'roedd y system hwnnw'n weithredol cyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2012. Mewn perthynas â'r digwyddiad ar 5 Awst 2012, dangoswyd tystiolaeth trwy gyfrwng "DVD" o'r ddau ddyn yn cwffio, a'r eiddo'n llawn o gwsmeriaid oedd yn cael eu gweini tra 'roedd y cwffio'n mynd rhagddo. Ar y dyddiad hwn hefyd, sylwyd bod nifer o gwsmeriaid yn cael eu gweini am 02.30, er i'r drwydded gyfredol nodi bod rhaid i'r eiddo gau am 02.30.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd cyfreithiwr ar ran deilydd y drwydded y sylwadau canlynol –

